

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

**GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID  
CWM TAF (YOS)**

Mae'r hysbysiad hwn wedi'i ysgrifennu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards

Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop/Maria Litchfield

Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN  
[data.protection@merthyr.gov.uk](mailto:data.protection@merthyr.gov.uk), 01685 725000

## 1. GWYBODAETH BWYSIG

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw ac yn defnyddio data personol yr ydym yn ei gasglu. Mae'n ofynnol i ni o dan y ddeddfwriaeth diogelu data roi gwybod i chi am y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau bod copi wedi'i ddiweddarau o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n [Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd llawn](#) sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data ac y gellir ei gyrchu ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data personol ar gyfer Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Cwm Taf (YOS). Mae YOS yn wasanaeth sy'n cael ei redeg ar y cyd ag aelodau o sawl sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth i helpu i gynorthwyo plant rhwng 8 ac 17 oed, eu teuluoedd a dioddefwyr troseddau, i leihau troseddu, aildroseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r YOS a'u teuluoedd.

## 2. PWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolydd data felly ni sy'n gyfrifol am y data personol sydd gennym. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a cheir manylion amdanynt ar ein [gwefan](#). Pan fyddwn yn sôn am yr Adran, rydym yn cyfeirio at yr YOS, sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Bydd yr YOS yn dod yn rhan o'ch bywyd os ydych mewn perygl o gyflawni troseddau, os ydych wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol, wedi'ch cyhuddo o drosedd ac wedi'ch galw i'r llys, neu os ydych wedi'ch cael yn euog o drosedd a chael dedfryd carchar neu wasanaeth cymunedol.

Os ydych chi'n ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid byddant yn darparu nifer o wahanol wasanaethau, gan gynnwys rhaglen atal trosedd, rhaglen cyfiawnder adferol a sicrwydd cymunedol, byddant yn rhoi cymorth a chefnogaeth i'ch rhieni a'ch gofawyr ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gwasanaeth. Yn ogystal, bydd yr YOS yn cefnogi dioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a'u teuluoedd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef gan ddefnyddio'r manylion ar frig yr hysbysiad hwn.

## 3. PA DDATA PERSONOL A DDEFNYDDIR

Gallwn gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi. Bydd ein gwasanaethau atal hefyd yn cadw cofnodion o'r ymyriadau y maent wedi'u cynnig i gefnogi eu nodau ac atal troseddu pellach. Mae ein gweithwyr yn gwneud gwaith allgymorth yn y gymuned yn rheolaidd ac fel rhan o'r gweithgaredd hwn, byddant yn cofnodi gwybodaeth sylweddol am unrhyw blentyn sy'n gweithio gyda'r YOS. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am unrhyw bryderon diogelwch a lles, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol, neu ymddygiad sy'n rhoi eraill mewn perygl.

Rydym hefyd yn cadw cofnodion am ddiodeffwyr trosedd. Mae gennym rwymedigaeth dan y 'cod ymarfer i ddiodeffwyr' i storio gwybodaeth am ddiodeffwyr ar wahân i'r sawl sy'n cyflawni eu trosedd. Defnyddir y wybodaeth a gasglwn i ddarparu gwasanaeth cyfannol i bob diodeffwr sy'n cytuno i gymryd rhan yn y Gwasanaeth.

Bydd y math o wybodaeth a gasglwn ac a ddefnyddiwn yn amrywio yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau pob unigolyn ifanc, eu teulu/gofawyr ac unrhyw ddiodeffwyr.

Bydd y mathau o ddata personol yr ydym yn ei ddefnyddio'n cynnwys:

- Disgrifiadau personol sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni
- Rhifau adnabod, gan gynnwys eich rhif yswiriant gwladol, rhif WCCIS, unrhyw gyfeirnod trosedd
- Data addysg fel eich cymwysterau, canlyniadau arholiadau, hanes addysg, presenoldeb ar gyrsgiau hyfforddi, adroddiadau ysgol, gwaharddiadau, ataliadau a chyflawniadau

Gallwn hefyd ddefnyddio a storio data demograffig sy'n rhoi cyd-destun i'ch data personol, megis:

- Data am ffordd o fyw, bydd y data hwn yn cynnwys eich statws priodasol, eich nodweddion, enw da cyffredinol, ymddangosiad cyffredinol, eich statws ariannol a chymdeithasol, barn bersonol, gofynion dietegol arbennig.
- Data sy'n ymwneud â'ch bywyd teuluol megis nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref, eich perthnasoedd, ble rydych yn mynychu'r ysgol, gwybodaeth berthnasol am eich anghenion a'ch amgylchiadau personol.
- Arsylwadau a barn broffesiynol am yr YOS a all gynnwys gwybodaeth berthnasol am ymyriadau, nodau a chyflawniadau cynlluniedig.

Efallai y byddwn hefyd yn prosesu data sy'n fwy sensitif megis:

- Data troseddol a fydd yn cynnwys manylion am arestladau, euogfarnau, cyhuddiadau neu bardwn, data ynglŷn â charchardai, data prawf, gwybodaeth am unrhyw gysylltiad blaenorol â gweithwyr proffesiynol yr YOS a gwasanaethau cymorth.
- Gwybodaeth ddiwylliannol
- Data gwasanaethau cymdeithasol a all gynnwys a oes gennych blentyn sy'n derbyn gofal, oedolyn agored i niwed, a ydych yn ofalwr maeth neu'n gofalu am aelod o'ch teulu, data cynllun gofal a data anghenion addysgol arbennig ac unrhyw fewnbwn gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg.

Mae yna categorïau arbennig o ddata personol sy'n fwy sensitif sydd angen lefel uwch o amddiffyniad. Rydym yn casglu, storio a defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o ddata personol amdanoch:

- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Barn wleidyddol
- Credoau crefyddol neu athronyddol
- Iechyd corfforol a meddyliol
- Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

Rydym yn egluro'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch yn adran 4 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

## 4. SUT MAE EICH DATA PERSONOL YN CAEL EI GASGLU

Rydym ni'n casglu data personol amdanoch chi mewn nifer o wahanol ffyrdd, naill ai'n uniongyrchol gennych chi o'ch rhan yn ein rhaglenni, aelodau o'ch teulu, yn benodol rhieni neu ofalwyr a hefyd gan ddiodefwyr trosedd. Yn ogystal â hyn byddwn hefyd yn cael gwybodaeth gan yr Heddlu, Swyddfa Llysoedd a Ieuenctid, Gwasanaethau Prawf a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid mewn meysydd eraill (yn enwedig os ydych wedi symud o un ardal i'r llall neu os oes gennych hanes o ymwneud ag YOS arall).

Byddwn yn mewnbynnu eich data personol i systemau cyfrifiadurol y Cyngor. Mae eich data personol yn cael ei storio ar weinyddion cyfrifiadurol diogel y Cyngor a dim ond staff awdurdodedig all gael mynediad ato. Mae'r holl staff sydd â mynediad at eich data personol yn cael hyfforddiant diogelu data a diogelwch gwybodaeth blynyddol.

Mae'n bosibl y byddwn weithiau'n casglu data personol ychwanegol gan drydydd parti gan gynnwys eich athrawon ysgol, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol ac ar rai adegau gan eich Meddyg Teulu, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) neu wasanaethau iechyd eraill fel iaith a lleferydd.

Byddwn yn casglu data personol ychwanegol yn ystod ein swyddogaethau busnes Cyngor a'r gwasanaethau a ddarparwn i chi trwy gydol eich cysylltiad â ni. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei ddefnyddio mewn meysydd gwasanaeth eraill, ewch i'n [tudalen we hysbysiad preifatrwydd](#).

## 5. SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU

Byddwn yn defnyddio eich data personol lle mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny'n unig. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan y [Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol](#) a, lle bo'n berthnasol, [Deddf Diogelu Data 2018](#). Byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

Erthygl 6(1)(c) sy'n ymwneud â rhwymedigaeth gyfreithiol a geir yn y cyfreithiau a ganlyn:

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Adran 54 Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (Mae'r ddeddf yn darparu ar gyfer datgelu gwybodaeth yn unol â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr)

Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012

Deddf Plant 2004

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Ebrill 2019

Ymddygiad gwrthgymdeithasol, Deddf Troseddu a Phlisma 2014

Adran 55 Deddf Ffiniau, Dinasyddion a Mewnffudo 2009

## 6. RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws yr Adran i roi'r cymorth sydd arnoch ei angen, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ag Adrannau eraill sy'n cynnwys:

Gwasanaeth Addysg

Gwasanaethau Cymdeithasol

Lles Cymunedol

Diogelwch Cymunedol

Diogelu

Gwasanaethau Tai

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau hyn bydd gofyn i ni hefyd rannu eich data personol â sefydliadau allanol a fydd yn cynnwys:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Heddlu De Cymru  
Bwrdd Iechyd Addysgu Cwm Taf Morgannwg  
Gwasanaeth Prawf  
BAROD

Mae'r Cyngor wedi arwyddo Cytundeb Rhannu Data WASPI gyda'r sefydliadau a restrir uchod y gellir eu gweld [yma](#).

Byddwn yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol amrywiol er mwyn darparu ein gwasanaethau, gan gynnwys:

Eich Meddyg Teulu  
Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol  
Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau  
Gwasanaethau Iechyd Meddwl  
Gwasanaeth Ymgynghori a Thriniaeth Fforensig Pobl Ifanc Cymru  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Niwroddatblygiad  
Iaith a Lleferydd

Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau yr ydych yn ymwneud â nhw i sicrhau eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen. Gall y rhain gynnwys:

Sefydliadau Troseddwr Ifanc (YOI)  
Canolfannau Hyfforddi Diogel ( STC ) .  
Cartrefi Plant Diogel  
Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid mewn ardaloedd eraill  
Yr Heddlu (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain)  
Barnados (Better Futures ac ICTGS )  
Gyrfa Cymru  
Darparwyr Addysg, Coleg a Hyfforddiant  
Darparwyr Chwaraeon a Hamdden  
Cyflogwyr  
Gwasanaethau Cymorth Cyffuriau ac Alcohol ( e.e BAROD neu unrhyw ddarparwr lleol arall)  
Asiantaeth Cymhwysedd Unigol  
Llwybrau Newydd  
Darparwyr Tai  
Gwasanaethau Cwnsela Cyfnewid  
Grwpiau Ffocws Dioddefwyr

Efallai y bydd adegau pan fydd yn rhaid i ni rannu eich data personol â Llywodraeth Cymru am resymau ystadegol a dadansoddi. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data personol a gedwir gennym ni i reoleiddio sut rydym yn cyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus. Gall rheolyddion a chyrrff llywodraethu eraill yr ydym yn rhannu data personol â hwy gynnwys:

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ( HMPPS )  
Swyddfa Gartref  
Gwasanaeth y Ddalfa Ieuenctid (YCS)

Rydym yn rhannu eich data personol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ( YJB ) mewn ymateb i unrhyw geisiadau a gawsom ganddynt. Gall hyn gynnwys datgeliadau ad-hoc at ddibenion ymchwil ac i wella arfer, yn ymwneud â data lefel achosion a allforiwyd o systemau rheoli achosion y YOS neu a gesglir mewn fformat pwrpasol a bennir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid . Darperir y wybodaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn monitro gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid; darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid; cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar weithrediad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, hyrwyddo arfer da, comisiynu ymchwil, asesu'r galw am lety diogel a llety arall yn flynyddol a hefyd rhannu data nad yw'n bersonol gyda sefydliadau eraill.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i'r [Ardal Economaidd Ewropeaidd](#) . Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl a gallwch ddisgwyl lefel debyg o amddiffyniad mewn perthynas â'ch data personol.

## 7. PA MOR HIR RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn cadw eich data personol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y casglwyd ar eu cyfer yn unig, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofnyion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd. Bydd y data personol a gesglir yn unol â'r prosesu a nodir yn yr hysbysiad hwn yn cael ei gadw tan eich pen-blwydd yn 25 oed. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd eich data personol yn cael ei ddinistrio'n ddiogel.

Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau ar eich data personol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ( [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) ).

## 8. SUT RYDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag cael ei golli, ei ddefnyddio, ei gyrchu, ei newid neu ei ddatgelu'n ddamweiniol mewn ffordd anawdurdodedig. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r gweithwyr hynny sydd angen gwybod oherwydd mater busnes. Bydd ein gweithwyr yn prosesu eich data personol ar ein cyfarwyddiadau ni'n unig, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dor diogelwch data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dor rheolau lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny'n gyfriethiol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw eich data personol yn

## 9. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol. Amlinellir y rhain yn y GDPR ac maent yn cynnwys:

- Yr hawl i Gywiro – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i Gyfyngu ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol, fodd bynnag, gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu gwybodaeth i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun prosesau gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.
- Hawl i Fynediad – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os ydych yn gwneud unrhyw newid i'ch data personol fel y gallwn ddiweddarau ein cofnodion.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro, gofyn i ddata gael ei ddileu, gwrthwynebu, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch data personol i barti arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar frig yr hysbysiad hwn.

## 10. MANYLION PELLACH

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i'n Swyddog Diogelu Data, y darperir ei fanylion cyswllt uchod, neu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyllo'r DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Ty Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH  
E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)  
Rhif ffôn: 0330 414 6421

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol gan gynnwys diogelwch data, cadw data, hawliau unigol, ewch i'n [polisi preifatrwydd llawn](#). Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o [wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](http://www.ico.org.uk), [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).